cnd cymru
yr ymgyrch
dros ddiarfogi niwclear

haf 2013
rhif 59

# hedwch



## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**golygydd:**
Jill Gough
**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk
**cynhyrchu a phostio:**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau **CND Cymru.** Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.*


## cnd cymru

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**


## cysylltiadau

**cadeirydd dros dro:**
John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com
**is-gaderyddion:**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com
Duncan Rees
07774 268 371
duncan.rees@co-operative.coop
George Crabb
01446 774 452
Ray Davies
02920 889 514
**trysorydd, aelodaeth ac aelodau:**
CND Cymru
9 Primrose Hill, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com
**masnachu:**
Kate and Del Rhys
coney@gn.apc.uk
**ysgrifenydd cenedlaethol:**
Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
www.cndcymru.org


# 'Ie i Annibyniaeth – Na i Arfau Niwclear!'

**Mae grwpiau heddwch yn yr Alban, fel llawer gwlad arall, wedi bod wrthi'n gweithio dros ddiarfogi niwclear ers blynyddoedd lawer. Ond mae'r sefyllfa yn yr Alban yn unigryw gan y gorfodwyd arfau niwclear arni yn erbyn ewyllys ei phobl ers 60 mlynedd a mwy. Yn awr, am y tro cyntaf er genedigaeth y bom, mae gan wlad Ewropeaidd gyfle i bleidleisio, yn y refferendwm ar annibyniaeth ymhen ychydig dros flwyddyn, i gadw neu gael gwared o arfau niwclear.**

Mae Refferendwm Annibyniaeth yr Alban (18 Medi 2014) yn sicr yn bleidlais ar arfau niwclear, oherwydd mae 70% o bobl yr Alban yn eu gwrthwynebu. Ym mis Mawrth, pasiodd Senedd yr Alban gynnig hanesyddol yn cadarnhau ei gwrthwynebiad i arfau niwclear. Ac mae'r Gwyrddion, aelodau Annibynnol a'r SNP o blaid gwaharddiad cyfansoddiadol ar arfau niwclear. Felly, os caiff yr Alban annibyniaeth, mae'n weddol sicr y bydd Trident yn mynd, a'r Alban yn wlad ddi-niwclear.

Fodd bynnag, tra bydd annibyniaeth bron yn sicr yn golygu diarfogi niwclear i'r Alban, dydy annibyniaeth ei hun ddim yn sicr, o bell ffordd. Ar y foment, dim ond 33% sydd o blaid, yn ôl arolygon barn. Felly, cael gwared o Trident yw'r ddadl gryfaf o blaid annibyniaeth. Ar yr un pryd, mae'r ddadl ynglŷn ag annibyniaeth yn gyfle i ddadlau achos diarfogi niwclear.

Dyw hi ddim yn hawdd i lywodraeth San Steffan gyfiawnhau gwario £100 biliwn ar system arfau ddibwrpas, tra'n cwtogi gwario ar anghenion sylfaenol pobl ar yr un pryd, torri budd-daliadau lles ac anabledd a phensiynau, a hyd yn oed codi Treth Stafell Wely ar deuluoedd sydd â llofft sbâr.




Mae hwn yn gyfle i godi mater diarfogi niwclear yn yr Alban, p'run ai y llwyddwn i ennill annibyniaeth ai peidio. Mae'n gyfle i elwa ar wrthwynebiad y bobl i'r polisi o lymder.
Mae ymgyrchwyr yn yr Alban yn pwyso am Alban annibynnol â blaenoriaethau gwahanol oherwydd mae ei phobl wedi dyheu erioed am ddiogelwch yn seiliedig ar ofalu am anghenion pobl ac ymdrin â gwrthdaro yn ddi-drais – nid crynhoi storfeydd anferth o arfau technoleg-uwch.

Mae clymblaid 'Scrap Trident' yn cynwys llawer o grwpiau heddwch a diarfogi, Plaid Werdd yr Alban, Plaid Sosialaidd yr Alban a'r Ymgyrch Annibyniaeth Radicalaidd sydd newydd ei ffurfio (www.scraptrident.org/about/scrap-trident-coalition-members/).

Ffurfiodd y grwpiau hyn glymblaid *Na i Nato* yr hydref diwethaf pan ddaeth yn hysbys y byddai'r SNP yn newid ei pholisi i gynnwys gwneud Alban y dyfodol yn aelod o gynghrair niwclear-arfog NATO.
Doedd dim o'r grwpiau hyn yn fodlon cefnu ar egwyddor gwrthwynebu arfau niwclear er mwyn ennill annibyniaeth; maent am i'r Alban fod yn ffyddlon iddi hi ei hun ac arwain y ffordd at fyd di-nwclear, nid dim ond Alban ddi-niwclear. Mae Scrap Trident yn gwrthwynebu NATO ac eto, yn rhyfedd ddigon, fe'i cefnogwyd gan 28 o ASAau, yn cynnwys y Prif Weinidog ei hun.

***Brian Larkin***




**HEDDWEITHREDU**
**Scrap Trident Coalition**
t: 0131 229 0993
e: info@scraptrident.org
www.scraptrident.org
www.facebook.com/ScrapTrident?fref=ts

# Cymru - yr Alban - y Byd

**Ym mis Ebrill, ymunodd Cymru â'r Alban mewn wythnos gyffrous o ymgyrchu dros ddiarfogi niwclear. Mae'r SNP wedi gwneud 'ymrwymiad cadarn' i symud llongau tanfor ac arfau niwclear Trident Prydain o'r Alban os ceir pleidlais 'ie' o blaid annibyniaeth yn 2014.**




**Ar y Strydoedd**

Gan gefnogi'r galw am annibyniaeth i'r Alban fel cam pendant tuag at ddiarfogi niwclear ym Mhrydain, ac fel esiampl i weddill y byd, ymunodd baneri CND Cymru ag eiddo'r 3000 o bobl a gymerodd ran mewn rali yn Glasgow.

Yn yr Alban, lle mae 70% o'r bobl a holwyd am weld arfau niwclear yn cael eu symud o'u gwlad, dim ond 30% sydd o blaid annibyniaeth ar hyn o bryd.

**Wrth y clwydi**

Trefnwyd gwrthdystiad a gwarchae ar ganolfan niwclear Faslane ar Ddydd Gweithredu ar Wariant Milwrol y Byd (Ebrill 25ain) gan y glymblaid eang ei sail, 'Scrap Trident – Let Scotland Lead the Way to a Nuclear Free World'. Roedd y 47 a restiwyd yno yn cynnwys Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies, ac Olwen Leovold.

**Yn y Senedd**

Roedd Cynhadledd Dilead Rhyngwladol 2000 a gynulliwyd yng Nghaeredin i gydnabod pwys yr Alban i'n gweledigaeth o ddiarfogi niwclear yn cynnwys llawer o hen gyfeillion CND Cymru o Seland Newydd, tir mawr Ewrop a'r UD.

Gan ymuno â chynrychiolwyr eraill o bedwar ban y byd, anerchodd Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru, Jill Gough, gyfarfod o gynrychiolwyr NGO ac Aelodau o Senedd yr Alban yn ddwyieithog. Gan fynegi dymuniadau gorau Cymru, nododd mai pleidlais dros annibyniaeth i'r Alban fyddai'r bleidlais boblogaidd gyntaf erioed o blaid diarfogi niwclear.

Roedd siaradwyr eraill yn y Gynhadledd yn cynnwys Humza Yousaf ASA (y Gweinidog dros Ddatblygiad Rhyngwladol); Dr. Tad Akiba, Cadeirydd Menter y Pwerau Canolig, cyn-Faer Hiroshima; Bill Kidd, ASA, Aelod o Gyngor Byd-eang Dilead 2000, Cyd-lywydd PNND, a Patrick Harvie ASA (Cyd-gynullydd Plaid Werdd yr Alban).

**Dilead 2000**

Roedd CND Cymru yn un o aelodau gwreiddiol Dilead 2000 – rhwydwaith o fwy na 2000 o fudiadau mewn 90 o wledydd sy'n gweithio i sicrhau diarfogi niwclear. Ategai datganiad a gyd-fabwysiadwyd gan bawb a fynychodd Gynhadledd Dilead 2013, fod arfau niwclear yn annheilwng o wareiddiad, yn fygythiad annerbyniol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, yn anghyfreithlon i'w defnyddio, yn tanseilio'r cydweithrediad sydd ei angen i ddatrys problemau diogelwch go iawn yr 21ain ganrif, ac yn afradu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Gweler mwy yn: http://tinyurl.com/o5wrtxr

# Oes, mae dewis arall

**Ar Orffennaf 16eg cyhoeddodd y Democratiaid Rhyddfrydol eu harolwg hir-ddisgwyliedig ond siomedig, yn y pen draw, *Alternatives to Trident*, a gomisiynwyd er mwyn ymchwilio i ddewisiadau eraill yn lle Trident.**

Er ystyried gostyngiad yn nifer y teithiau gan longau tanfor, a ph'run ai bod lansio o awyren neu o'r tir yn rhatach nag o long danfor, llwyr anwybyddwyd diarfogi niwclear fel dewis. Mae'n dadlau, yn hytrach o blaid gostwng nifer y llongau tanfor arfau-niwclear o 4 i 2 a rhoi terfyn ar y system Rhyfel Oer o Fraw-atal Parhaus ar Fôr (CASD).

Tra dylem groesawu unrhyw ostyngiad mewn llongau tanfor arfau niwclear a CASD, siom o'r mwyaf yw'r ffaith i'r Arolwg anwybyddu'r unig ddewis gwirioneddol a ddaw â heddwch hir-dymor, gwir ddiogelwch a dyfodol heb ryfel niwclear, sef diarfogi niwclear i Brydain.

Meddai John Cox, Cadeirydd gweithredol CND Cymru: 'Yr ateb amlwg yw dileu Trident ar unwaith, a pheidio â chael dim yn ei le. Mae'n glir nad yw'r awduron yn gofyn y cwestiynau iawn.

'Tra bod y tlotaf a'r mwyaf diymgeledd yn ein cymdeithas yn dioddef oherwydd toriadau'r llywodraeth ganolog, sut y gall hi fod yn iawn ymrwymo cymaint o arian cyhoeddus i daflegrau niwclear a'u systemau tanio?'

Mae'r drafodaeth ynglŷn ag olynydd i Trident yn gyfle unwaith mewn oes i roi esiampl i wledydd eraill sy'n deisyfu arfau niwclear. Mae bygythiad ymlediad niwclear yn mynd â'r byd gam yn nes at wynebu erchyllter rhyfel niwclear.

Ni cheir penderfyniad terfynol ynglŷn ag adnewyddu neu olynu Trident tan 2016.

**HEDDWEITHREDU**

Mae CND Prydain wedi lansio adroddiad newydd, The Real Alternative: What the government's Trident Alternatives Review isn't telling you sy'n gweld methiant llywodraeth San Steffan i ystyried peidio â chael dim byd yn lle arfau niwclear Trident fel cam cwbl anghyfrifol, a bod peidio â chael dim byd yn 'ddewis credadwy, sy'n cynnig buddiannau strategol ac economaidd go iawn': http://bit.ly/157Pw2C

**Pam nad anfonwch chi gopi at eich AS gyda llythyr o esboniad gennych chi? Cysylltwch ag CND Cymru (gweler tud. 2) am gopi.**



# Trident yn y newyddion

## Blix

**Dywedodd Hans Blix, cyn-arolygydd arfau'r CU wrth gyfarfod gorlawn yng Ngŵyl y Gelli ei bod hi'n bryd i Brydain roi'r gorau i'w system niwclear Trident a pheidio â rhoi dim yn ei le.**

Dywedodd Blix, cyfreithiwr rhyngwladol o Sweden a arweiniodd y chwilio am arfau dinistr torfol yn y cyfnod yn union cyn rhyfel Irac, na allai weld sut y byddai gwario £100 biliwn ar ymestyn oes y rhaglen arfau niwclear yn dod â gronyn yn fwy o ddiogelwch i Brydain.

Dywedodd: 'Gwn nad yw lluoedd milwrol Prydain yn frwd iawn o'i blaid. Dwi ddim yn credu y câi Prydain ei hamddiffyn yn well gan [Trident] ac mae'r Almaen a Japan fel fe pe baent yn gwneud yn iawn hebddynt [arfau niwclear].' Mae ar Blix ofn fod y broses ddiarfogi wedi'r rhyfel oer mewn 'cors' a bod 'cynhadledd ddiarfogi Genefa yn parhau mewn coma degawd o hyd.'

## Faslane – yn yr Alban ai peidio?

**Mae adroddiad gan Sefydliad yr Alban yn awgrymu, pe bai'r Alban yn ennill ei hannibyniaeth, y gallai Canolfan y Llynges ar afon Clud bara i fod yn diriogaeth Brydeinig sofran fel y gallai Prydain barhau i ddefnyddio'i llongau tanfor niwclear.**

Ymatebodd Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) i'r adroddiad trwy ddweud y byddai Faslane yn mynd yn ganolfan lynges gonfensiynol wedi annibyniaeth. Byddai Trident yn cael ei symud cyn gynted â phosib ond dydy'r SNP ddim wedi pennu amserlen. Dywedodd llefarydd ar ran llywodraeth yr Alban: '. . . ni fyddwn yn gwastraffu biliynau o bunnau ar arfau niwclear'.

*Defence and Security in an Independent Scotland*

http://tinyurl.com/nak25gk

## Bydd dileu Trident yn arwain at Brydain gyfoethocach a diogelach

**Mae Nick Brown, AS Llafur Newcastle upon Tyne East a chyn-brif chwip, yn dadlau'n glir yn erbyn olynydd i Trident mewn erthygl ar wefan y New Statesman.**

Gan alw ar y llywodraeth i fod yn realistig ynglŷn â gallu Prydain i ymarweddu fel pŵer milwrol ym mhedwar ban, mae'n awgrymu mai doethach fyddai arwain trwy esiampl yn hytrach na thrwy rym a gorfodaeth. Trwy beidio ag adnewyddu Trident, byddai Prydain yn gosod esiampl i wledydd eraill sydd naill ai'n datblygu arfau niwclear neu'n eu deisyfu, gan olygu y gallai Prydain chwarae rhan flaenllaw mewn sefydlu parthau di-arfau niwclear newydd, yn cynnwys rhai yn Affrica a'r Dwyrain Canol.

http://tinyurl.com/mwmbzmy

## O blaid diarfogi niwclear unochrog

**Mae Hugh Beach yn dadlau yn *Open Democracy* fod ofn y label 'unochrog' yn cymylu'r ffaith bod yna achos cryf iawn bellach i ddadlau y byddai ymwrthod yn llwyr ag arfau niwclear o fudd i wledydd Prydain.**

Roedd y Cadfridog Syr Hugh Beach GBE KCB MC, sydd wedi ymddeol bellach, yn gyn-Ddirprwy Bencadfridog Lluoedd Tir y DU ac yn Brif Gadfridog Cadoffer.

http://tinyurl.com/kswkx93

## Galw am ddadl go iawn ar Trident yn y Blaid Lafur

Mewn llythyr yn y *Guardian* ar yr 20fed o Fehefin, nododd 36* o ASau, ACau a chynrychiolwyr y Blaid Lafur y byddai llawer o bobl yn rhoi blaenoriaeth i wario ar iechyd neu addysg, isadeiledd neu gefnogi'r diymgeledd yn hytrach nag ar adnewyddu arfau niwclear Trident Prydain. Byddai eraill yn dadlau bod gwario mwy na £100 biliwn ar system arfau Rhyfel Oer yn niweidio buddiannau Prydain. ▶

Mae'r llofnodwyr yn galw ar y Blaid Lafur i gynnal dadl ar Trident, yn wyneb y ffaith bod llawer yn y blaid yn credu nad oes achos strategol, economaidd na moesol o blaid arfau niwclear tra bod eraill yn anghytuno.

http://tinyurl.com/molmqwd

***Llofnodwyr o Gymru:** Martin Caton AS Gŵyr; Paul Flynn AS Gorllewin Casnewydd; Christine Chapman AC Cwm Cynon; Jenny Rathbone AC Canol Caerdydd; Julie Morgan AC Gogledd Caerdydd; Julie James AC Gorllewin Abertawe; Nick Davies, Annabelle Harle, a Darren Williams cynrychiolwyr NPF.



# Cefnogi Gonestrwydd

**Dair wythnos i mewn i achos llys Bradley Manning, tyfu y mae'r gefnogaeth i chwythwr chwiban WikiLeaks ledled Cymru, Iwerddon, yr Alban a Lloegr, ardal rhwydwaith WISE Up*.**

Mae gwreiddiau Bradley yng Nghymru ac Iwerddon. Wrth i sgandal y Comisiwn Ansawdd Gofal rygnu yn ei flaen, a llygaid y byd ar Edward Snowden ac ymdrechion yr UD i'w bardduo– yr un a ddatgelodd fod y wladwriaeth yn ysbïo ar bob un ohonom – fel ysbïwr, tyfu y mae cydymdeimlad y cyhoedd â phawb sy'n llefaru dros y gwirionedd a chyfiawnder.

Yn union cyn yr achos, bu gweithredoedd cefnogol yng Nghaerdydd dros ddeuddydd, codwyd baneri yng Nghaerfyrddin, a dangoswyd cefnogaeth yn Hwlffordd ar y 3ydd Mehefin, diwrnod cynta'r achos. Treuliodd Bradley rai blynyddoedd yn Hwlffordd yn ei arddegau, ac mae ganddo deulu yno o hyd. Teimlai'n bwysig i mi i arddangos fy nghefnogaeth bersonol i Bradley yn y dref lle mae ganddo gysylltiadau lleol.

Dychwelais i Hwlffordd dair wythnos yn ddiweddarach, gyda'r disgwyl y byddai'r achos yn para naw wythnos arall. Mae llawer o bryder yma ynglŷn â chanlyniad yr achos a dyfodol Bradley. Mae llywodraeth yr UD wedi ei chael hi'n anodd cyflwyno mwy na thystiolaeth amgylchiadol neu achlust ar rai o'r cyhuddiadau, er bod Bradley eisoes wedi pledio'n euog i gyhuddiadau llai a allai arwain at 20 mlynedd o garchar milwrol.

Beth bynnag y bo'r ddedfryd, credaf y cofnodir enw Bradley Manning yn y llyfrau hanes fel chwythwr chwiban dewr a weithredodd er lles y cyhoedd gan ddatgelu troseddau'r mawrion, yn cynnwys troseddau rhyfel.

***Genny Bove***

*www.wiseupaction.info

**HEDDWEITHREDU**

**Anfonwch neges o gefnogaeth at Bradley d/o Courage to Resist, 484 Lake Park Avenue #41, Oakland, CA 94610, UDA**

**I chwarae rhan mewn cefnogi yn lleol:**

**e:** wiseupforbm@yahoo.com

**t: 0845 330 4505**




◀ (caption continues in left column above)

# Y Rhyfel Byd Cyntaf



**Y flwyddyn nesaf fydd canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn hytrach na 'rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel' neu 'fuddugoliaeth i ddemocratiaeth', roedd yn gyflafan filwrol ac yn drychineb ddynol.**

Mae David Cameron yn bwriadu gwario £55m ar goffáu'r canmlwyddiant hwn ac, yn gwbl amhriodol, mae'n cymharu'r digwyddiadau hyn â dathliadau'r jiwbilî gan ddweud mai eu nod fydd pwysleisio ysbryd Prydeinig. Fe'u trefnir yn rhannol, mae'n debyg, gan gyn-gadfridogion a chyn-ysgrifenyddion amddiffyn, ac mae'r ffaith honno'n datgelu yn union faint o gamsyniad yw'r cynlluniau hyn.

Yr hyn a ysgogodd ryfel 1914-18 oedd cystadlu rhwng uwch-bwerau'r oes am ddylanwad ym mhedwar ban y byd. Achosodd lefel o ddioddefaint a adlewyrchir yn glir yn y ffigyrau a gofnodir, sef 16 miliwn yn farw ac 20 miliwn wedi eu clwyfo.

Dylem ni yng Ngymru ac eraill ledled y byd fod yn trefnu digwyddiadau diwylliannol, gwleidyddol ac addysgol i fawrygu dewrder pobl yn y rhyfel ond hefyd i goffáu'r dinistr personol, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd annychmygadwy bron a achoswyd. Rhaid i ni sicrhau y defnyddir y canmlwyddiant hwn i hyrwyddo heddwch a chydweithrediad rhyngwladol.

**Da chi, soniwch wrth CND Cymru am unrhyw gynlluniau sydd gennych neu y clywch amdanynt.**

# Cymru dros Heddwch

**Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn arwain consortiwm i ddatblygu project mawr yn seiliedig ar heddwch i gychwyn yn 2014.**

Bydd 'Cymru dros Heddwch' yn diogelu, rhannu ac adeiladu ar sail treftadaeth Cymru o adeiladu heddwch, gyda'r nod o gael 50,000 o bobl i gyfranogi mewn digwyddiadau cyhoeddus, gwaith addysgol, arddangosfeydd, ac ymchwilio i hanes teuluol. Trwy gynnwys gwaith ymchwil ar y Rhyfel Byd cyntaf ac agweddau cyfredol at heddwch a gwrthdaro, bydd y project yn rhoi hwb ychwanegol i lansio Academi Heddwch Cymru.

Mae partneriaid eraill yn cynnwys Cymdeithas y Cymod, Amgueddfa Cymru, Urdd Gobaith Cymru, a phrifysgolion Caerdydd, Aberystwyth, a Chaerfaddon.

Gwnaed cais dechreuol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac, os bydd yn llwyddiannus, bydd 'Cymru dros Heddwch' yn gallu lansio cam cyntaf y project ym mis Medi. Byddai'r rhaglen lawn yn cychwyn ym mis Medi 2014, gyda'r bwriad o gysylltu'r project â choffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

*Martin Pollard WCIA*

# Academi Heddwch Cymru

**Croesawodd cyfarfod gweithgor 'Academi Heddwch Cymru' yn Llandudno ar yr 8fed o Fehefin y papur roedd Is-gadeirydd CND Cymru John Cox wedi ei gyflwyno'n flaenorol i'r Grŵp Holl-bleidiol ar Hawliau Dynol a Heddwch.**

Amlinellai'r math o Academi y gellid ei sefydlu: 'melin drafod annibynnol â chymwysterau academaidd dilychwin a fyddai'n darparu dadansoddiad ffeithiol diduedd ar faterion sy'n destun pryder i bawb ym mhobman.' Dylai fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ni ddylai fod yn gorff sy'n ymgyrchu, a byddai'n bodoli er lles pawb – yn cynnwys y llywodraeth, y mudiad heddwch, a'r sefydliad milwrol. Mae'r gwaith ar y project hwn yn parhau.

**HEDDWEITHREDU**

**Cysylltwch â:**
**Jane Harries**
t: 01656 768 910
e: ejharries@hotmail.com


# Llais dim Trais!

**Cymerodd CND Cymru ran yng Ngŵyl Corau'r Strydoedd a oedd â'r thema 'Heddwch' eleni.**

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd yn Aberystwyth, o dan ofal Côr Gobaith. Agorodd Bruce Kent y penwythnos godidog a gorymdeithiodd Gorymdaith Heddwch o fwy na mil o gantorion a ffrindiau o gwmpas y dref i Brom Aberystwyth. Siaradodd Bruce eto mewn gweithdy gwych ar ymgyrchu yn erbyn Trident. Gan sôn am yr iaith a ddefnyddir gan ymgyrchwyr a chefnogwyr niwclear, dywedodd 'Dylem chwalu myth yr "ymbarèl niwclear"; nid ymbarèl mohono, ond cludydd mellt niwclear!'




**Yn y llun gwelir Is-gadeirydd CND Cymru Ray Davies yn cerdded i lawr i Riw Penglais gyda Bruce.**
**Bydd Bruce yn ymweld â Llandudno a Chaerdydd yn yr hydref (gweler Dyddiadau Dyddiadur, t.12).**



## Aldermaston

**Fel rhan o brotest Action AWE, daeth corau o fannau mor bell i ffwrdd â Chymru, Reading, Rhydychen a Llundain at ei gilydd i ganu mewn digwyddiad cerddorol yn erbyn arfau niwclear ym mis Mehefin.**

Ymgasglodd y protestwyr yn Newbury i ganu i siopwyr a dosbarthu taflenni am eu hamcanion am awr neu ddwy, cyn teithio mewn ceir a bws i Glwyd Falcon ac yna i Brif Glwyd safle SAA Aldermaston, lle caiff arfau niwclear Prydain eu cydosod a'u cynnal a'u cadw.

## Cefnogaeth i streicwyr newyn

**Ar yr 17eg o Fai, aeth Genny Bove â thaflenni 'Cau Guantánamo Nawr!' a baner o'i gwaith ei hun i ganol tre Wrecsam i gefnogi streic newyn gyfredol Guantánamo.**

Mae'r rhan fwyaf o'r 166 o garcharorion sydd ar ôl yn Guantánamo yn gwrthod bwyta ac mae mwy na 30 o garcharorion yn cael eu bwydo'n orfodol mewn modd milain. Mae un o'r rhain, Shaker Aamer, o Brydain. Fel y rhan fwyaf o'r gweddill, ni chafodd ei gyhuddo o unrhyw drosedd, a dywedwyd y gallai fynd yn rhydd, ond does dim tebygrwydd y caiff ei ryddhau. Carcharwyd Aamer yn Guantánamo ers 11 mlynedd ac ymunodd â'r streic newyn ym mis Mawrth.

**HEDDWEITHREDU**

http://tinyurl.com/lkan2me a http://tinyurl.com/msthn3m

## Hedfan isel milwrol

**Mae Jonathan Edwards AS, sy'n gwrthwynebu'r militareiddio ar Gymru, wedi mynegi pryder difrifol am y cynnydd mawr yn y nifer o awyrennau sy'n hedfan yn isel dros y canolbarth a'r gorllewin.**

Mae'r nifer o ehediadau islaw 250 troedfedd wedi cynyddu o 21 yn 2011/12 i 54 yn 2012/13, ac mae'r ehediadau wedi mwy na dyblu mewn hyd. Nid yw hyn yn cynnwys ehediadau gan awyrennau tramor (NATO). Dywedodd yr AS: 'Tacteg filwrol rhyfel oer yw hedfan yn isel, â'r nod o osgoi radar. Dydy'r hyn ddim yn berthnasol i'r math o gyrchoedd milwrol a gyflawnir gan yr Awyrlu mewn gwrthdaro cyfoes. Mae'r rhan fwyaf o aelodau eraill NATO wedi gwahardd ehediadau lefel-isel dros ardaloedd poblog.'

'Ceir tystiolaeth sy'n cysylltu hedfan isel ag anhwylder cardiofascwlaidd a cholli clyw. Dwi'n credu y dylid gwneud astudiaethau iechyd mewn perthynas ag ardal dactegol Cymru.' Dywedodd y byddai'n holi llywodraeth San Steffan ynglŷn â hynny yn yr wythnosau nesaf.

Datgelwyd y bu bron i ddwy awyren hyfforddi filwrol Hawk wrthdaro 16,000 troedfedd uwchlaw Aberystwyth ym mis Chwefror mewn digwyddiad a ddisgrifir fel un math A – y mwyaf peryglus. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai'r achos oedd i'r ddau griw fethu gweld ei gilydd, gan ddweud i wrthdrawiad gael ei osgoi 'trwy ragluniaeth' yn unig.

**HEDDWEITHREDU**

**Poeni am ehediadau hyfforddi lefel-isel? Cynhwyswch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, fel amserau a lleoliad, pan fyddwch yn cwyno.** Cyswllt: Complaints and Enquiries Unit, Low Flying Operations Squadron, RAF Wittering, Peterborough PE8 6HB t: 0845 600 7580. Os oes modd, anfonwch gopïau o unrhyw lythyron a anfonwyd gennych at eich Aelodau Cynulliad a'ch AS a gofyn iddynt godi'r mater, neu mi fydd yr Awyrlu yn disgwyl i chi fod yn fodlon ar ymddiheurad llugoer.




## Calan Mai yng Nghaerdydd

**Aeth Côr Cochion Caerdydd â neges CND Cymru allan ar strydoedd Caerdydd ar gyfer gorymdaith Gŵyl Lafur Ryngwladol/Calan Mai a drefnwyd gan Gyngor Undebau Llafur Caerdydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i frwydro yn erbyn llymder a thoriadau. Meddent 'er ein bod yn ymfalchïo yn ein gorffennol, yn y dyfodol y gwelir mor bwysig yw ein dylanwad'.**

## Rhwydwaith Ymgyrch Dronau Cymru (RhYD Cymru)

**Mudiad ymbarèl newydd a aned o gynhadledd lwyddiannus yn Nghaerdydd ym mis Mai, i gydgysylltu gweithgareddau yn erbyn awyrennau dibeilot yng Nghymru.**

Mae RhYD Cymru yn cynllunio'u gweithred gyntaf ar y 9fed o Fedi – presenoldeb heddychlon ym Mharc Aberporth, Ceredigion, cartref profion dronau yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-daro â diwrnod dronau arbennig yn Ffair Arfau Llundain, lle bydd gweithredwyr yn cynnal gwylnos olau cannwyll.

Cefnogir RhYD Cymru gan amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion yn cynnwys canghennau'r Fenni a Chaerdydd o Ymgyrch Cefnogi Palesteina, Bro Emlyn dros Heddwch a Chyfiawnder, CND Cymru a'r Rhwydwaith Cyfiawnder a Heddwch.

**HEDDWEITHREDU**

**Am fwy o fanylion am y digwyddiad ar Fedi'r 9fed, gweler FBook** www.facebook.comdronecampaignnetworkcymru cysyllter ag info@cndcymru.org t: 07810 566 919.

Parheir i wneud 'profion' a 'threialon' ar yr awyrennau hyn a'u 'datblygu' yn Aberporth (dysgwch gan ein cynrychiolwyr etholedig a detholwch eich geiriau'n ofalus). Gyda'u nadu annymunol fel rhyw beiriant torri gwair bygythiol ag adenydd – wedi eu rheoli o'r ddaear gannoedd o filltiroedd i ffwrdd, pwy a ŵyr – dywedir wrthym mai dim ond 'profi' eu hoffer 'gwylio' a 'thargedu'a wneir. A thestun y profion hyn, gellid tybio, yw'r Cymry sy'n byw ac yn anadlu yn y 500 cilometr sgwâr o Gymru isod. Cwynwch wrth eich AS, da chi!

Am hanes manwl awyrennau dibeilot yng Nghymru, gweler **Papur Cefndir CND Cymru 3: *Adar Angau dros Aberporth*** *(am gopi/gopïau cysyllter ag CND Cymru).*



BWYTA DROS HEDDWCH

# Maeth a Chefnogaeth

**Bob dydd Gwener yng nghanol y ddinas, mae Bwyd Nid Bomiau yn dosbarthu prydau bwyd i bwy bynnag sydd eu heisiau fel protest yn erbyn yr holl arian trethdalwyr sy'n cael ei wastraffu ar ryfel yn hytrach na bwydo pobl. Tra y gall rhai mathau o brotest fynd yn fwrn ar ôl tipyn, mae Bwyd Nid Bomiau yn cyfrannu'n uniongyrchol i'ch cymuned ac fe welwch yr effaith yn syth tra'n codi cwestiynau ynglŷn â thlodi a rhyfel.**




Gweinir pryd cartref gwahanol bob wythnos, yn cynnwys cyri, byrgyrs llysiau, pasta a salad. Gyda nifer sydd wedi gweithio mewn ceginau yn y grŵp, mae bob amser yn flasus iawn! Ochr yn ochr â'r bwyd a'r diodydd poeth rhad-ac-am-ddim, mae casgliad o lenyddiaeth radicalaidd – nid cegin gawl gyffredin mohonom, rydyn ni'n credu mewn cydsefyll nid cardod. Byddwn yn dod â phobl ynghyd trwy fwyd ac mae trafodaeth yn deillio o hynny. Byddwn yn siarad â phobl am eu pryderon am y byd, neu broblemau yn eu bywydau (fel tai, diffyg arian, ac ati) a cheisio eu cyfeirio at gymorth. Y gobaith yw ein bod, yn ogystal â bwydo pobl, yn eu haddysgu a bod hynny'n gyfrwng hybu newid cymdeithasol.

**Bwydlen i'r byd**

Mudiad rhyngwladol o grwpiau annibynnol o bedwar ban yw Bwyd Nid Bomiau. Fe'i cychwynnwyd gan weithredwyr gwrth-niwclear yn UDA yn y 1980au ac mae mwy na 400 o grwpiau ledled y byd erbyn hyn. Gall unrhyw un gychwyn grŵp Bwyd Nid Bomiau, cyhyd â'u bod yn cytuno â chredoau canolog y grŵp: mae'r bwyd bob amser yn llysieuol neu'n fegan ac yn rhad ac am ddim i bawb; mae pob grŵp yn annibynnol ac yn ei reoli ei hun, a phenderfynir trwy gonsensws; mae'r grŵp yn ymrwymedig i ddulliau di-drais.

Roeddem wrth ein bodd pan gysylltodd criw o bobl o Abertawe â ni, a oedd am gychwyn Bwyd Nid Bomiau yno. Gobeithio y gallwn ysbrydoli mwy o bobl ledled Cymru i gychwyn eu grwpiau eu hunain.

**Agored i bawb**

Dechreusom wneud Bwyd Nid Bomiau yn wythnosol yng Nghaerdydd fis Hydref diwetha ac mae llawer yn dod atom yn gyson bellach. Mae'r bobl sy'n dod mor amrywiol, dydyn ni byth yn diflasu ar y gwaith – byddwn yn cael pobl ddigartref, gweithredwyr, pobl o bob oed a gwahanol ddiwylliannau sy'n mwynhau'r bwyd a'r cwmni. Mae'n safle yng nghanol y ddinas (tu cefn i'r farchnad) yn fwriadol: trwy fod yn y fath le cyhoeddus gyda chynulliad o bobl newynog, all gweithwyr neu bobl ar fusnes neu'n siopa sy'n mynd heibio mo'n hanwybyddu ni na'r materion a godir gennym. Cawsom lechyd yr Amgylchedd yn ein herlid, a chawsom ein cau lawr gan yr heddlu un tro pan wnaethom stondin ychwanegol ar Heol y Frenhines i gefnogi gwrthdystiad Gasa Rydd, ond dyw hynny ddim yn ddigon i'n hatal.


*Efa Thomas*

**HEDDWEITHREDU**

**Mae Bwyd Nid Bomiau yn rhedeg yn llwyr ar gyfraniadau: rydym yn tyfu peth o'r bwyd ein hunain yn ogystal â derbyn rhoddion o fwyd gan fusnesau ac unigolion lleol.**

Rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau codi arian ac mae jar casglu ar ein bwrdd. Os hoffech helpu, gallwch naill ai helpu i goginio a gweini neu gyfrannu bwyd neu arian. Gan ein bod yn grŵp cymunedol, gallwch fod yn sicr bod eich cyfraniadau yn mynd yn syth at y bobl y byddwn yn eu bwydo ar y stryd.

e: foodnotbombscardiff@riseup.net
Facebook: www.facebook.com/foodnotbombscardiff
Twitter: @FNBCardiff




## Parti Penblwydd y Siop Heddwch

**Mewn aduniad deng mlwyddiant ar hugain ym mis Mai, daeth rhai o aelodau gwreiddiol menter gydweithredol ddi-elw y Siop Heddwch (Mackintosh Place, Caerdydd) ynghyd i ddathlu llwyddiannau'r siop ac i gofio cyfeillion coll.**

Am 15 mlynedd, bu'r Siop Heddwch yn fan cyfarfod (a bwyta) cenedlaethol, yn gyrchfan a chanolfan wybodaeth ar gyfer mudiadau heddwch, cyfiawnder a hawliau dynol Cymru gyfan. Gwirfoddolwyr a redai'r holl fenter. Ym 1998, caeodd y siop ac yn y man, cyfunwyd swyddfa newydd yn y Deml Heddwch â rhwydaith newydd-ei-ffurfio 'Cynefin y Werin', a sefydlwyd ym 1998 i fynd ag achosion allan ar strydoedd Caerdydd yn ystod Uwchgynhadledd Ewrop.

Mae ysbryd y Siop Heddwch yn dal yn fyw!

**Llun uchod: George Crabb, Jack Thomas, Norma Couper, Alistair Couper, Margot Rees, Yvette Phillips, Liz Screen a Liz Roberts.**



## Cyn-filwyr yn ennill o'r diwedd

**O'r diwedd mae barnwr wedi dyfarnu i luoedd arfog a anfonwyd i mewn i gylch alldafliad profion niwclear gael eu niweidio gan ymbelydredd yn y 1950au a'r 60au.**

Dyma'r tro cyntaf i filwyr Prydeinig dderbyn unrhyw beth i gydnabod eu bod yn dioddef o gancr ac afiechydon anghyffredin, a lewcemia a namau geni eu plant. Bu cyn-AS Blaenau Gwent, Llew Smith, yn ymgyrchu a dadlau am ddegawdau ar ran milwyr a ddioddefodd o effeithiau ymbelydredd.

Disgwylir i'r cyn-filwyr eraill, llai na 3,000 ohonynt, fe dybir, hawlio iawndal gan y llywodraeth. Cred y cyn-filwr Nick Simons mai am un rheswm yn unig y talodd y Weinyddiaeth Amddiffyn, sef i osgoi datgelu papurau meddygol cyfrinachol. 'Os gwnaiff digon ohonom ennill pensiwn, efallai y llwyddan nhw i ymddiheuro o'r diwedd', ychwanegodd.

Yn y cyfamser, datgelodd dogfennau a ryddhawyd gan y WA ym mis Gorffennaf fod profion niwclear Ffrainc yn Ne'r Môr Tawel yn y 1960au a'r 1970au yn llawer mwy gwenwynig nag a gydnabuwyd cynt, gan daro ystod eang o Polynesia ag alldafliad ymbelydrol, newyddion sydd wedi cynddeiriogi grwpiau cyn-filwyr a sifiliaid.

## Llongau tanfor

Mae tri ymarferiad diweddar i roi prawf ar drefniadau cynllunio argyfwng niwclear pe bai damwain ar fwrdd un o longau tanfor niwclear y Llynges wedi methu bodloni safonau rheolyddion diogelwch y llywodraeth. O ganlyniad, gwaharddwyd llongau tanfor niwclear rhag angori mewn dwy loch am y tro.

## Annwyl Bab Francis

**Mae Bruce Kent wedi sgrifennu at y Pab gan ofyn iddo gondemnio arfau niwclear yn fyd-eang.**

Gan gyfeirio at ddiffyg ymateb yr Eglwys Babyddol yng Nghymru a Lloegr ar fater adnewyddu Trident, gofynnodd Bruce Kent i'r Pab 'lefaru wrth y byd ynglŷn â dileu rhyfel a phob arf dinistr torfol', gan y byddai gwario £100 biliwn ar olynydd i Trident yn 'lladrad oddi wrth y rhai sydd yn newynu heb gael eu diwallu' – chwedl yr Arlywydd Eisenhower.

Llefarodd llawer o grwpiau ac arweinwyr eglwysi Cristnogol yng Nghymru, yn cynnwys Archesgob Pabyddol Caerdydd, Peter Smith, a rhai yng ngweddill Prydain yn erbyn olynydd i Trident. Byddai clywed bod yr Eglwys Babyddol yn gwrthwynebu arfau niwclear o gymorth i lawer.

I gloi, sgrifennodd Bruce Kent: 'Fe all ac fe ddylai'r ddynolryw fyw mewn heddwch, yn rhydd o fygythiad arfau dinistr torfol sydd, o ganlyniad i ddamweiniau a chamddealltwriaeth, wedi dod â ni yn agos at ddinistr sawl gwaith yn y gorffennol diweddar.'

Testun llawn llythyr Bruce Kent: http://bit.ly/10ZtDhC




## Gwersyll Heddwch Faslane

**Mae'r gwersyll hwn, y gwersyll heddwch parhaol hynaf yn y byd, wedi bod yn ddraenen yn ystlys system arfau niwclear Prydain ers 31 o flynyddoedd, gyda'i weithredu uniongyrchol didrais, anufudd-dod sifil a'i wyliadwraeth ar symudiadau llongau tanfor.**

Wedi apêl ddiweddar at weithredwyr ledled Prydain, rhoddwyd estyniad einioes i'r gwersyll a'i draddodiad a'i hanes cyfoethog o wrthwynebiad annibynnol i arfau newydd a militareiddio. Yn sgîl y dathliadau 31ain mlwyddiant, mae canolfan ymwelwyr a gofod cymunedol newydd yn cael eu hadeiladu o fyrnau gwellt cynaliadwy a phridd, gyda tho tyweirch sy'n casglu dŵr glaw, muriau potel, gwydru dwbl, a gwresogydd cruglwyth thermol.

Gwahoddir unrhyw un sydd ag amser sbâr, a hoffai helpu a dysgu sgiliau adeiladu gwyrdd, i roi help llaw gyda'r adeiladu. Mae'r gwersyll yn gobeithio codi £3,100 o arian adeiladu hefyd, £100 am bob blwyddyn o'i fodolaeth.

**HEDDWEITHREDU**

http://faslanepeacecamp.wordpress.com/
e: faslane30@gmail.com
m: 07511793227
t: 01436 820901

## Ffaeleddau dynol

**Câi'r Alban ei gadael i ofalu amdani ei hyn yn y cyfnod tyngedfennol yn dilyn damwain gydag ergyd niwclear Brydeinig ar un o ffyrdd yr Alban, yn ôl papurau a ryddhawyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.**

Mae'r rhain yn nodi gwendidau dybryd mewn cynllunio argyfwng niwclear yn deillio o ymarferiad a gynhaliwyd ger Glasgow, pan na chafodd y gwasanaethau brys ddim cymorth gan arbenigwyr arfau'r WA am fwy na phum awr wedi i'r ddamwain ddigwydd. Bu anghytuno rhwng staff brys parthed sut i drin dioddefwyr a ymbelydrwyd, systemau cyfathrebu papur hen-ffasiwn, signal ffôn symudol gwael, cyngor gwyddonol anghyson ynglyn â pheryglon i iechyd, a dryswch ynglŷn â monitro ymbelydredd. Mae arfau niwclear yn cael eu cludo dan ofal gwarchodlu ar y ffyrdd hyd at chwe gwaith y flwyddyn rhwng ffatrïoedd bomiau Aldermaston a Burghfield yn Berkshire a storfa arfau'r Llynges yn Coulport yn yr Alban.

http://tinyurl.com/lxur2qm

## Heddlu niwclear meddw

**Cafodd heddgeidwaid gyda'r Heddlu Niwclear Sifil (CNC) sy'n gwarchod safleoedd niwclear ym Mhrydain eu dal yn feddw, yn defnyddio cyffuriau, yn camddefnyddio gynnau, a chyhuddwyd rhai o erledigaeth ac ymosodiadau rhywiol.**

Achosodd y troseddau hyn bryder parthed diogelwch sefydliadau niwclear a deunydd ymbelydrol Prydain. Nododd Paul Flynn AS, tra cafodd 441 o filwyr Prydeinig eu lladd yn Afghanistan i'n hamddiffyn rhag bygythiadau honedig gan frawychwyr, mai 'safleoedd niwclear yw'r prif dargedau hunllefus a allai greu dinistr torfol. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu aberth dramor, ond safonau diogelu truenus o wan gartref.'

## Dirwyon i Sellafield ac Aldermaston

**Cafodd cwmni niwclear Sellafield Cyf. ddirwy o £700,000 a gorchymyn i dalu mwy na £72,000 mewn costau am anfon bagiau o wastraff ymbelydrol i safle tirlenwi.**

**Gorchmynwyd SAA Aldermaston i dalu mwy na £200,000 am fethiannau diogelwch yn dilyn tân yn 2010.**

Dywedodd Robin Oakley o Greenpeace bod hyn oll yn ei hatgoffa eto y bydd sefydliadau niwclear bob amser yn agored i niwed oherwydd camgymeriadau dynol ac ymddygiad anghyfrifol. 'Os nad yw'r bobl sydd i fod i'n hamddiffyn rhag y lefel uchaf o risg niwclear yn cymryd diogelwch o ddifri', meddai, 'sut allwn ni fod ag unrhyw hyder yng ngweddill gweithgareddau'r diwydiant niwclear?'

# Y Tymor Dwl Di-ben-draw

**Yr haf yw'r 'tymor dwl' o ran newyddion, meddan nhw. Pan ddaw hi'n fater o bŵer niwclear, mae'r dwli fel pe bai'n para cyhyd â thanc ymbelydrol sy'n gollwng mewn storfa wastraff amheus. O leia, dyna'r olygfa o Ynys Môn yng ngolwg PAWB (Pobl Atal Wylfa B).**

• Hinkley C, heb fod ymhell dros y dŵr o Gaerdydd. Mae'r negydu hirfaith rhwng EDF a chlymblaid San Steffan yn dal i rygnu ymlaen – ac ymlaen, wrth iddyn nhw ddyfeisio ffyrdd o flingo'r trethdalwr a dadlau amdanynt. Dydyn ni ddim 'ar drugaredd' EDF, medd y gweinidog Toriaidd, Michael Fallon – ond go brin yr ymddengys felly allan yn y byd go iawn. Mae sylwebwyr y wasg yn amau a fydd Hinkley C yn digwydd o gwbl bellach. Fel dyfais negydu, cyfeiria Fallon at heyrn eraill sydd ganddo yn y tân, fel cystadleuwyr Wylfa, Hitachi. Well, prin bod Hitachi'n fwy dibynadwy na RWE-nPower cyn i hwnnw gefnu ar Wylfa y llynedd. Waeth i ni wynebu'r peth, pwy fuddsoddai mewn pŵer niwclear y dyddiau yma heb i gafn anferth o arian cyhoeddus gael ei wthio o dan eu trwyn. Fydd EDF ddim yn penderfynu'n derfynol ynglŷn â Hinkley tan fis Medi.

• A sôn am Hinkley, lansiodd Greenpeace her gyfreithiol ym mis Mai, yn ceisio arolwg barnwrol o benderfyniad y llywodraeth i roi caniatâd cynllunio cyn sicrhau safle lle gellid cael gwared o'r gwastraff yn ddiogel. Ceffylau a throliau yn y drefn anghywir yw un o nodweddion hanfodol byd pen-i-waered cynllunio niwclear. Go dda, Greenpeace.




• Yn y cyfamser, y pen arall i Gymru, dywedodd gweithredwyr Wylfa-A eu bod am ymestyn oes y talp musgrell hwn o goncrid eto fyth – tan fis Rhagfyr 2015. Ddegawdau yn ôl, dywedodd arbenigwyr fel Dr John Large fod ymestyn oes Wylfa yn rhyfygus. Mae mynd heibio i'w ddyddiad gwerthu olaf un o bum mlynedd yn ymddangos yn fyrbwyll ac yn beryglus.

• Wrth i dai gael eu dymchwel yn y talp eang newydd o arfordir gogledd Ynys Môn a fwriedir ar gyfer Wylfa-B, mae ynyswyr yn dechrau sylweddoli maint y datblygiad arfaethedig, a fyddai'n dinistrio llain anferth o arfordir hardd a thir amaethyddol hynafol. Mae hyd yn oed y bobl sy'n breuddwydio am y swyddi (chwedlonol, gan mwyaf) hyn yn dechrau amau doethineb storio gwastraff ymbelydrol iawn ar y safle yma am ryw 150 mlynedd, cyn y gellir hyd yn oed ei symud.

• Mae trychineb Fukushima, ar ôl mwy na 2 flynedd, hefyd yn cael ei wylio â phryder cynyddol. A allai Hitachi wneud camgymeriadau cyffelyb yma? Wrth gwrs. Dydy hwylustod gwleidyddol, pwysau masnachol, brys, diffyg cynllunio iawn ar gyfer cael gwared o wastraff, a threfniadau argyfwng amhriodol ddim yn creu hinsawdd o ddiogelwch.

***Phil Steele***

**HEDDWEITHREDU**

**PAWB (Pobol Atal Wylfa B):**
t: 01248 490 715
e : phil_steele@btinternet.com
www.stop-wylfa.org
fb: www.facebook.com/groups/StopWylfaB

# Nid drwg lle gellir gwaeth

**Datgelodd cynghorwyr lleol gynlluniau i storio a thrin gwastraff ymbelydrol o bob rhan o'r DU yn Hinkley Point (Gwlad yr Haf). Yn waeth byth, dim ond trwy ddamwain y darganfuwyd cynigion yr Asiantaeth Dadgomisiynu Niwclear (NDA).**

Dywedodd Theo Simon o 'Stop Hinkley' fod profiad o'r ffordd y cafodd cynlluniau Hinkley C eu gwthio drwodd yn golygu 'cyn gynted ag y dwedan nhw wrthoch mai dyma eu dewis gynllun, dyw eu "hymgysylltu agored" a'u "hymgynghori" yn golygu dim mwy na phobl leol yn gwylio cyflwyniadau PR ynglŷn â phenderfyniad a wnaed eisoes mewn man arall. Mae angen gofyn i bobl Gwlad yr Haf yn y lle cyntaf a ydym yn credu y dylid hyd yn oed ystyried y dewis hwn o droi'n sir yn ail Sellafield.'

Ni ŵyr EDF beth i'w wneud â'r gwastraff ymbelydrol o Hinkley C ei hun. Byddai dod â gwastraff ymbelydrol i mewn o safloedd eraill yn gwneud Hinkley Point yn safle storio gwastraff ymbelydrol. Gellid defnyddio hynny yn y dyfodol i ganiatáu cynlluniau ar gyfer adweithyddion newydd yn Hinkley Point heb eu herio, er na sicrhawyd storfa dymor-hir ar gyfer tanwydd hesb o'r adweithyddion.

Felly, gallai'r cynnyrch gwastraff mwyaf gwenwynig yn hanes y ddynolryw fod yn eistedd yn barhaol ar lannau gorllewin Gwlad yr Haf yn wyneb stormydd, tsunami, camgymeriadau dynol ac anrhaith amser, ynghyd â gwastraff o hen orsafoedd ynni eraill a fewnforiwyd i'r sir oni chaiff cynigion yr NDA eu gwrthod yn llwyr.

**HEDDWEITHREDU**

**Am y diweddaraf am yr ymgyrch:**
**Stop Hinkley Campaign:**
www.stophinkley.org
www.facebook.com/StopHinkley?fref=ts
**Theo Simon**
t: 01749 860767
m: 07455 325 961
e: theo@seizetheday.org
Nikki
m: 07736 930069
e: nikki@stophinkley.org
**SouthWest against Nuclear:**
e: swanactive@gmail.com
www.southwestagainstnuclear.wordpress.com
fb:www.facebook.com/SouthWestAgainstNuclear

# Hinkley Point

**Awgrymodd yr Ysgrifennydd Ynni Ed Davey y gallai gymryd rhai misoedd cyn i Electricité de France (EDF) a'r llywodraeth Brydeinig gytuno ar bris am adeiladu adweithyddion arfaethedig Hinkley Point (Gwlad yr Haf), Oldbury (Swydd Gaerloyw) ac eraill ym Mhrydain.**

Dywedodd hefyd oni ellid cytuno cyn hir, na fyddai Hinkley Point yn cynhyrchu tan o leiaf ddiwedd y degawd.Gwrthododd EDF Energy roi amserlen wedi ei diweddaru ar gyfer adeiladu adweithyddion ar y safle yng Ngwlad yr Haf, lle bwriadai fod yn cynhyrchu pŵer yn wreiddiol cyn diwedd 2017. Mae holl orsafoedd pŵer niwclear Prydain i fod i gau erbyn 2023 (ac eithrio Sizewell sydd i gau yn 2035). Y dacteg nawr yw gwneud i bobl ofni y bydd prinder pŵer, yn lle gweithio'n galed i arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.




Mae Hinkley Point 15 milltir ar dros Fôr Hafren o lannau de Cymru.

## Ymateb niwclear i ymosodiadau seiber

**Dywed swyddogion yr UD pe bai 'ymosodiad [seiber] ar seilwaith milwrol a sifil yr UD' y byddent yn ystyried ymateb ag ymosodiad niwclear.**

Mae'r cyn-'czar' gwrthfrawychaeth, Richard Clarke, ac un o gyn-swyddogion Clinton, Steve Andreasen, wedi beirniadu'r polisi peryglus hwn, gan ddweud y dylai UDA yn bendant ddileu'r bygythiad o ddialedd niwclear fel ymateb i ymosodiadau seiber; fel arall, dim ond pwysau bys ar fotwm sydd rhyngom â rhyfel niwclear o hyd.

## Ffwlbri ehediadau niwclear

Dywedodd cadfridog yn Awyrlu'r UD mai bwriad ymddangosiad awyrennau bomio niwclear B-2 a B-52 mewn ymarferion milwrol gyda De Korea yn y gwanwyn oedd *llacio'r* tensiynau gyda Gogledd Korea. Hawliodd y Cadfridog Garrett Harencak, 'Does dim enghraifft well o werth braw-ataliaeth niwclear na'r ehediadau diweddar dros Benrhyn Korea gan awyrennau bomio o'r Unol Daleithau.' *Global Security Newswire, 7 Mehefin 2013.*

## Dedfrydu gweithredwyr Plowshares

**Cafwyd tri gweithredydd gwrth-arfau niwclear Plowshares (y Chwaer Megan Rice, Michael Walli a Greg Boertje-Obed) yn euog gan reithgor o achosi difrod tra'r torri i mewn i safle 'amddiffyn' niwclear Americanaidd.**

Ym mis Gorffennaf 2012, torrodd y tri i mewn i Gyfleuster Deunydd Wraniwm Tra-chyfoethedig gradd-arfau Y-12 Oak Ridge, sydd i fod yn un o safleoedd diogelaf yr Unol Daleithau. Maent yn wynebu hyd at 20 mlynedd o garchar ar ôl eu collfarniad am ddifrodi'r sefydliad a adeiladwyd yn wreiddiol yn ystod Project Manhattan, a ddatblygodd y bom niwclear cyntaf. Gan grybwyll Cyfraith Gyfansoddiadol a Chytundebol yr UD ac Egwyddorion Nuremberg yn ystod eu hachos, eglurodd y tri fod Cyfraith Ryngwladol yn mynnu eu bod yn condemnio a gwrthsefyll troseddau amlwg. Yn ei thystiolaeth, dywedodd y Chwaer Megan, sy'n 83, ei bod 'yn gresynu na wnes i hyn 70 mlynedd yn ôl.'

**HEDDWEITHREDU**

**Da chi, sgrifennwch atynt:**

www.transformnowplowshares.wordpress.com

## Wythnos Dileu Arfau Niwclear

**O'r 6ed-13eg o Orffennaf, trefnodd yr Ymgyrch Ryngwladol yn erbyn Arfau Niwclear (ICAN) wythnos arbennig i alluogi pobl o bedwar ban i fynnu cytundeb yn gwahardd arfau niwclear.**

Yn yr Iseldiroedd, ceisiodd ymgyrchwyr sefydlu record byd-eang Llyfr Guiness am y nifer fwyaf o lofnodion seneddol yn galw am waharddiad ar arfau niwclear, a chael y nifer fwyaf o lofnodion o unrhyw wlad ar gyfer deiseb ICAN.

Yn Sweden, yng nghynulliad blynyddol y prif bleidiau gwleidyddol ar ynys Gorland, bu ymgyrchwyr a myfyrwyr meddygol yn mesur pwysedd gwaed mynychwyr ac eraill tra'n trafod pwysigrwydd cytundeb yn gwahardd arfau niwclear. Yn Costa Rica, canolbwyntiodd gwrthdystiad cyhoeddus 'Target X' ar gasglu cysgodion fel rhan o'r fenter Rhannwch eich Cysgod, a chasglu llofnodion ar ddeiseb ICAN. Ar ôl wythnos o gasglu cysgodion, mae'r lluniau'n cael eu cydosod mewn murlun i'w arddangos ar Ddydd Hiroshima yn mis Awst.

Yn ystod Pwyllgor Paratoadol y Cytundeb Atal Ymlediad niwclear, lansiodd ICAN ddeiseb ar-lein yn galw ar y gwladwriaethau a fydd yn mynychu'r gynhadledd sydd i ddod ar effeithiau dyngarol ar Fecsico i ddechrau negydu ar gyfer cytundeb yn gwahardd arfau niwclear.

www.icanw.org

ican international campaign to abolish nuclear weapons

## Lluoedd Niwclear y Byd

**Mae'r pum gwladwriaeth sydd yn swyddogol ag arfau niwclear, yn ôl diffiniad y Cytundeb Atal Ymlediad (NTP) – China, Ffrainc, Rwsia, Prydain ac UDA – yn ymddangos yn benderfynol o gadw arfau niwclear am y dyfodol amhenodol.**

Mae gan UDA a Rwsia raglenni moderneiddio sylweddol ar y gweill ar gyfer systemau saethu taflegrau, ergydion niwclear a chyfleusterau cynhyrchu. Mae'r pum gwlad yn parhau i leihau eu lluoedd niwclear o dan New START a thrwy leihad unochrog. Mae'r moderneiddio'n 'perffeithio' targedu a chysondeb, gan wneud arfau hyd yn oed yn fwy marwol, hyd yn oed os cwtogir ar nifer yr ergydion.

| Gwlad | Ergydion lleoledig | Ergydion eraill | Cyfanswm arfau |
|---|---|---|---|
| UDA | 2150 | 5550 | ~7700 |
| Rwsia | 1800 | 6700 | 8500 |
| Y DU | 160 | 65 | 225 |
| Ffrainc | ~290 | ~10 | ~300 |
| China | .. | ~250 | ~250 |
| India | .. | 90–110 | 90–110 |
| Pakistan | .. | 100–120 | 100–120 |
| Israel | .. | ~80 | ~80 |
| Gogledd Korea | .. | .. | 6–8? |
| **Cyfanswm** | **~4400** | **~12865** | **~17270** |

Bras amcangyfrifon yw'r rhain, o'r sefyllfa yn Ionawr 2013. Stockholm International Peace Research Institute Yearbook.




## Newyddion Jeju

**Mae'r protestiadau'n dal i ddigwydd bob dydd ar Ynys Jeju, yr ynys fechan ger arfordir De Korea, lle mae dinasyddion lleol yn protesio yn erbyn cynlluniau i adeiladu canolfan lynges lle bydd llongau milwrol llynges yr UD yn gallu angori.**

Yn 2005, bedyddiwyd Jeju, sydd â mwy o safleoedd Treftadaeth Naturiol y Byd UNESCO nag unrhyw leoliad unigol arall, yn 'Ynys Heddwch Byd-eang' fel ymddiheurad am laddfa filain ond anhysbys bron a ddigwyddodd yno ym 1948. Mae cyd-sefydliad yr UDA/De Korea yn cael ei adeiladu ym mhentref Gangjeong, ac mae gweithredwyr heddwch yn parhau i wrthsefyll yn gadarn. Mae'r gweithredwyr Dr. Song Kang-Ho a'r Brawd Jeswitaidd Park Do-Hyun yng Ngharchar Jeju yn disgwyl achos llys am weithredu'n unioniongyrchol. Carcharwyd Dr Song am chwe mis yn 2012. Mae'r ddau, a fu yn y carchar ers 9 diwrnod hyd yn hyn, i ymddangos ar gyhuddiadau eraill oherwydd eu hymdrechion mawr dros heddwch yn Gangjeon. Maent yn ymuno â'r Athro Yang Yoon-Mo, sydd 159 diwrnod i mewn i ddedfryd o 18 mis, a Mr. Kim Young-Jae a fu y ddalfa ers 89 diwrnod heb ei ddedfrydu.

**HEDDWEITHREDU**

**Mae pob cefnogaeth yn galondid.**

**Da chi, sgrifennwch at y gweithredwyr:**

www.nukeresister.org/inside-out/

fb: www.facebook.com/groups/nonavalbase

www.savejejunow.org

# Meithrin y Dyfodol

**Nid dim ond yng Nghymru y wynebir ein plant a'n pobl ifanc gan y lluoedd arfog a gwerthoedd milwrol.**

Rhwng ymweliadau ag ysgolion gan aelodau o'r lluoedd arfog, gemau fideo, a phresenoldeb a symbolau milwrol mewn mannau cyhoeddus, mae pobl ifanc yn cael eu hannog i dderbyn yr ethos milwrol fel rhywbeth angenrheidiol a gwerthfawr, rhywbeth i'w gefnogi ac, yn sicr, byth i'w gwestiynu.

Trwy erthyglau, delweddau, data o arolygon a chyfweliadau, mae'r cyhoeddiad diweddaraf hwn gan War Resister's International yn dogfennu sut y plennir hadau rhyfel ym meddyliau pobl ifanc ledled y byd. Ar yr un pryd, mae'r llyfr yn archwilio plannu hadau gwrthsafiad gwydn a chreadigol. Nid dim ond llyfr ar gyfer gweithredwyr heddwch a gwrth-filitaraidd yw hwn: bydd o ddiddordeb a defnydd i rieni, neiniau a theidiau, athrawon, gweithwyr ieuenctid a'r bobl ifanc eu hunain.

***Sowing Seeds: The Militarisation of Youth and How to Counter It.***
**Owen Everett**
**War Resisters' International 2013**
**ISBN: 978-0-903517-27-0 £5.00**

### HEDDWEITHREDU

**Mae Gwerin y Coed yn annog rhai 16-21 oed i sgrifennu at brifathrawon i ofyn am wahardd recriwtwyr milwrol o'u hysgolion.**

Wrth i doriadau o 27% i wasanaethau ieuenctid achosi i ganolfannau ieuenctid gau, mewn rhai ardaloedd yr unig gyfle i gymdeithasu yw digwyddiadau'r cadetiaid milwrol. Prydain yw'r unig wladwriaeth yn Ewrop sy'n dal i recriwtio rhai 16 oed i'r lluoedd arfog. Mae recriwtio plant i mewn i'r lluoedd arfog yn groes i argymhellion Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Da chi, sgrifennwch at bennaeth eich ysgol uwchradd leol ac at eich Aelodau Cynulliad.

Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb i ddeiseb gan Gymdeithas y Cymod a anfonwyd at y Cynulliad Cenedlaethol ar y pwnc hwn: http://tinyurl.com/kyszzvs

# Tri Llyfryn o Iwerddon

**Nodau PANA (y Gynghrair Heddwch a Niwtraledd) yw polisi tramor annibynnol i Iwerddon, amddiffyn ei niwtraledd, a hyrwyddo Cenhedloedd Unedig diwygiedig fel y sefydliad lle dylai Iwerddon godi materion yn ymwneud â diogelwch.**

Mae'n ymgyrchu ar hyn o bryd yn erbyn penderfyniad llywodraeth Iwerddon i ganiatáu i'r UD ddefnyddio maes awyr Shannon ar gyfer ehediadau traddodi a chodi tanwydd yn ei rhyfeloedd yn y Dwyrain Canol.

Ymhlith deunydd ymgyrchu PANA ceir cyfres o lyfrynnau deallus, darllenadwy, â lluniau. Mae *Some facts about Iran's Nuclear Activities* y Dr. David Morrison yn egluro nad oes achos o blaid sancsiynau na rhyfel yn erbyn Iran; mae *The Battle Groups of the European Empire* Roger Cole yn archwilio hanes 'Ewrop' fel uwch-wladwriaeth ganoledig, filitaraidd, neo-ryddfrydol, imperialaidd, gan ddadlau bod Ewrop arall yn bosibl: 'partneriaeth o wladwriaethau democrataidd annibynnol, cydradd o dan y gyfraith heb ddimensiwn milwrol.'




Mae llyfryn John Lannon (Shannonwatch), *Shannon Airport, War and Renditions*, cyhoeddwyd ar y cyd â Mudiad Gwrth-Ryfel Iwerddon, yn taflu goleuni diddorol ar hedfan, hawliau dynol a chyfraith ddyngarol. Er gwaethaf datganiadau cyson gan wleidyddion Llywodraeth Iwerddon fod Iwerddon yn dal yn wlad niwtral, cafodd mwy na 2 filiwn o filwyr arfog yr UD deithio trwy Faes Awyr Shannon wrth fynd a dod rhwng parthau rhyfel, ynghyd ag awyrennau cargo ar gontractau milwrol ac awyrennau milwrol eraill.

Efallai na chlywn lawer am hyn yng Nghymru, ond mae'n eglur bod Maes Awyr Shannon ac Iwerddon wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddioddefaint dyddiol a cham â hawliau dynol gŵyr, gwragedd a phlant – o'r dynion a arteithiwyd ym Mae Guantánamo i blant yn Afghanistan a anafwyd neu a amddifadwyd gan gyrchoedd dronau neu fomiau min ffordd. Disgrifia Lannon weithredoedd uniongyrchol a phrotestiadau deallus gwrthwynebwyr militareiddio Shannon, ymgyrchwyr sy'n parhau, ar sail amrywiaeth eang o ddulliau cyfreithiol cenedlaethol a rhyngwladol, i gefnogi eu dadleuon moesol.

***Elenydd***

### HEDDWEITHREDU

**Mae'r pamffledi ar gael am 3 Ewro yr un a chludiant oddi wrth Roger Cole yn PANA**
t:(+353) (0) 1 235 1512 e:info@pana.ie
www.pana.ie/resource/index.html

# Lens sy'n taflu goleuni

Yn *Anti-militarism: Political and Gender Dynamics of Peace Movements,* mae'r gweithredydd heddwch a'r academydd Cynthia Cockburn yn cwestiynu ac yn archwilio'r atebion i faterion yn ymwneud â thrais, militariaeth, ac effaith diwylliant y gorffennol a'r presennol ar fudiadau heddwch ac ymgyrchoedd eraill.

Noda mor aml y mae mudiadau cymysg, honedig 'radicalaidd', yn dynwared yr un strwythurau patriarchaidd sy'n hybu militariaeth ei hun. Mewn rhai mudiadau, mae'r dadlau'n parhau ynglŷn â phriodoldeb cysylltu ymgyrchoedd ag erchylltra trais yn y cartref a threisio.

Mae Cockburn yn defnyddio astudiaethau achos yn cynnwys hanesion llwyddiannau a thensiynau o fewn mudiadau gwrth-ryfel, gwrth-filitaraidd a heddwch yn Japan, De Korea, Sbaen, Uganda a Phrydain, rhwydweithiau rhyngwladol yn erbyn gorfodaeth filwrol ac ymlediad gynnau, ac ymgyrchoedd unigol yn gwrthwynebu trais yn erbyn Palestiniaid ac ehangiad NATO.

Noda, er gwaethaf camau ymlaen mewn gwleidyddiaeth rhyw, bod menywod, mewn llawer mudiad ac er gwaethaf enillion sylweddol, yn parhau i frwydro i gael gwrandawiad. Mae llawer yn dal i ddewis grwpiau menywod yn unig.

Peth arall cymeradwy yw bod Cockburn yn ei gwneud hi'n glir i Daith Gerdded 'Menywod dros Fywyd ar y Ddaer' i Greenham ym 1981 gychwyn yng Nghymru, ffaith a anwybyddir yn aml gan fudiad heddwch Lloegr, ond sy'n bysig i hanes y bobl o'n gwlad a'n traddodiad o heddychiaeth.

Daw pobl ynghyd mewn mudiadau i ddiweddu rhyfel o lawer traddodiad gwleidyddol. Maent yn sosialwyr, comiwnyddion ac anarchwyr, pobl o wahanol grefyddau, anffyddwyr, heddychwyr a ffeministiaid. Maent yn rhannu cred bod heddwch yn bosibl, ond ceir amrywiaeth barn parthed achosion militariaeth a sut i'w hatal. Mae astudiaeth Cockburn yn gam tuag at ddeall ac adeiladu ar sail ein profiadau er mwyn mynd â'r maen i'r wal.

Gan sgrifennu o safle rhwng y farn nihilistaidd fod trais yn anorfod a chred iwtopaidd yn y posibilrwydd o fyd di-drais, mae Cockburn yn datgelu'n ofalus y llu o densiynau a rhaniadau yn y mudiadau trwy lens rhywedd.

***Jill Gough***

***Anti-militarism: Political and Gender Dynamics of Peace Movements.***
**Cynthia Cockburn**
**Palgrave Macmillan 2012**
**ISBN - 978-0-230-35975-8**

**Awst 8** 8yh
**HWLFFORDD** Canolfan Picton
**Y Problemau a'r Peryglon o Ddefnyddio Awyrennau Di-beilot**
Sgwrs gan Chris Cole, Rhwydwaith Gwrth-Awyrennau Di-beilot
Cyswllt ff: 01834 845 868
e: anne.gregson@littlewedlockgallery.co.uk

**Awst 26 – Medi 7**
**Gwersyll Diarfogi Rhyngwladol**
Am fanylion pellach gweler www.tridentploughshares.org
ff: 0845 4588 362
e: tpcamp@actionawe.org

**Awst 30 – Medi 1**
**MACHYNLLETH** - Y Plas
**El Sueno Existe – Gŵyl Victor Jara**
*Y mae'r Freuddwyd yn parhau, BreuddWyd am Gymdeithas Decach – Ysbryd Victor Jara yng Nghymru*
Thema 2013 yw '40 o Flynyddoedd yn hwyrach'. Mae hi bellach yn 40 mlynedd ers y coup miilwrol yn Chile a marwolaeth Victor Jara, y cerddor fu yn ysbrydoliaeth i'r ŵyl. Yn ogystal ag edrych yn ôl a dathlu cerddoriaeth ddiamser Victor Jara, bydd yr uyl yn edrych ar arwyddocâd y coup a'l sgil-effeithiau heddiw, ym Mhrydain ac yn Chile. Sêr yr ŵyl eleni yw band Chileaidd 'Amigo Artista', Bydd y gantores Corina Piatti o;r Ariannin yn cyflwyno caneuon o'i repertoire, yn cynnwys Tango, Melonga a chaneuon gwerin America Lladin. Cyswllt: Helen Sandler helensandler@gmail.com www.elsuenoexiste.com/

**Medi 2** 7yh ymlaen
**AWE BURGHFIELD**
*Gwarchae Mawr*
Gweithredwch i wrthwynebu arfau niwclear a thros gychwyn diarfogi yn fyd-eang. Ymunwch â gwarchae di-drais ffatri cynhyrchu bomiau AWE Burghfield (ger Reading, Berkshire). Dewch i eistedd, gorwedd, plethu breichiau neu i gefnogi'r ymgyrchwyr. Mae angen eich gwrthsafiad ymroddedig, sifil, didrais. Dewch â'ch ffrindiau! Am wybodaeth bellach ff: 0845 4588 362
e: tpcamp@actionawe.org

**Medi 9** Canol Dydd
**PARC ABERPORTH** (ger Blaenannerch)
**Gwylnos – Awyrennau Di-beilot Mas!**
Y tu allan i'r sefydliad profi awyrennau di-beilot (Qinetiq)
Trefnir gan Rwydwaith Ymgyrch Gwrth-Awyrennau Di-beilot Cymru (DCN Cymru). Cyswllt: info@cndcymru.org

**Medi 13 – 22**
**CAERDYDD** Eglwys Gadeiriol Landâf
**'Diniweidrwydd Coll'** Arddangosfa Gelf gan blant o Gasa - tua 50 o luniau gan blant yn Gasa yn ystod ac yn fuan wedi Operation Cast Lead, yr ymosodiad gan Israel ar Gasa dros y Flwyddyn Newydd 2008/9 lle lladdwyd dros 1400 o bobl, hanner ohonynt yn blant.
**Am wybodaeth bellach ac / neu i drefnu i'r arddangosfa ddod i leoliad / digwyddiad yn agos atoch chi, cysylltwch â: Rod Cox rod@cape.uk.net see: http://www.cape.uk.net**

**Medi 14** 7.30yh
**CAERDYDD Canolfan Celfyddydau 'The Gate', Y Rhath**
**Cyngerdd Dathlu Penblwydd 30 Côr Cochion** gyda Dafydd Iwan a Dave Burns, The Lovely Wars a Gwenno, ac eraill ... Bydd hefyd arddangosfa, ffotos, ffilmiau, posteri gwleidyddol a stondinau. Croeso cynnes i bawb! Bydd yn wych – dewch!
**Cyswllt Paul Relph e:** gogreen1942@hotmail.co.uk **neu Wendy Lewis e:** wendya.lewis@sky.com **02920 889514** www.corcochion.org.uk
**Gweler fideo Côr Cochion ar youtube:** http://tinyurl.com/pvu8t3z

**Medi 20 – 21**
**Cynhadledd Hanes Heddwch 2013**
**MANCEINION** Tŷ Cwrdd y Crynwyr, Mount Street. 'Y Mudiad Heddwch a Gwrth-ryfel ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf – gwersi am heddiw'
Ffurflen gofrestru: http://tinyurl.com/nh8grps

**Hydref 3**
**AWE BURGHFIELD**
**Diwrnod Gweithredu Cymru .... Gyda'r Dreigiau!**
Daw Sefydliadau Arfau Atomig (AWE) Aldermaston a Burghfield yn ffocws unwaith yn rhagor i wrthdystiad di-drais, gyda'r bwriad o ddod â chynhyrchu arfau niwclear i ben yn ffatrïoedd cynhyrchu bomiau AWE yn Swydd Berkshire. Bydd CND Cymru yn ymuno ag 'Action AWE' i ddwyn pwysau ar y llywodraeth ac i dynnu sylw cyhoeddus a gwleidyddol at y ffatrïoedd cynhyrchu bomiau yn Aldermaston a Burghfield tan o leiaf etholiadau 2015. Beth am drefnu grŵp o'ch ardal chi? Gadewch i CND Cymru wybod beth yw eich cynlluniau. Rhagor o wybodaeth oddi wrth Angie Zelter ff: 01547 520929. Gwler hefyd www.actionawe.org

**Hydref 5 – 7**
**Wythnos o Weithredu yn erbyn Awyrennau Di-beilot**
(Rhan o Wythnos Ryngwladol 'Cadwch Le am Heddwch' / 'Keep Space for Peace'). Daw mwy o fanylion yn nes at yr amser. Gwyliwch: www.dronecampaignnetwork.wordpress.com/week-of-action-events

**Hydref 12- 13**
**LERPWL, Cynhadledd CND Prydain**
www.cnduk.org/about/cnd-conference

**Tachwedd 23 a 24** 10yb – 4yp
**ABERTAWE Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Ffair Werdd Abertawe**
Digwyddiad gwyrdd mwyaf Abertawe – dewch i weld cynnyrch, gwybodaeth, grwpiau a gwasanaethau cyfeillgar i'r amgylchedd i gyd yn yr un lle – gan gynnwys stondin CND Abertawe.
Cyswllt: Brian Jones, CND Abertawe: 01792 830330

**30 Tachwedd**
**CAERDYDD, Gŵyl Heddwch 75**
Cynhelir gŵyl yn y Deml Heddwch, Caerdydd ar Ddydd i ddathlu pen-blwydd y Deml yn 75 blwydd oedd. Cymerwch ran mewn celfyddyd, ymunwch â thrafodaeth, gwrandewch ar gerddoriaeth fyw, gŵyliwch bêl-droed, gwnewch helfa drysor, gwrandewch ar stori, rhannwch ddiwylliannau, cerddwch ar hyd llwybr heddwch iddyn nhw heddiw.
Am wybodaeth bellach cyswllt; peace75@wcia.org.uk

# Pat Allen

**Testun tristwch mawr i CND Cymru yw'r golled ar ôl Pat Allen, dyn da, cymrawd da, a chyfaill agos i CND Cymru.**
Er mai un o selogion CND rhanbarth Llundain oedd Pat, a wirfoddolai yn swyddfa CND Prydeinig, roedd yn cefnogi ein hymgyrch yng Nghymru ac yn ein cadw mewn cysylltiad ag ymgyrchu yn ne-ddwyrain Lloegr. Roedd Pat yn rhyng-genedlaetholwr o'r iawn ryw; yn wahanol i gymaint o bobl, nid oedd ei rhyng-genedlaetholdeb yn cychwyn yn Calais, ond ar garreg ei ddrws.
Fel y dywedodd Is-gadeirydd CND Cymru, John Cox: 'Roedd Pat yn dod o draddodiad gwleidyddol lle roedd ymgyrchwyr yn ymroi i ymdrechu'n gwbl anhunanol, heb feddwl am gydnabyddiaeth bersonol.' Ei gyfraniad mwyaf i CND oedd mynnu rhoi'r flaenoriaeth i waith ymgyrchwyr cyffredin yn eu cymunedau.

# Clywch, clywch!

**Mae CND Cymru bellach yn berchen ar system PA symudol pŵer mewnol, sy'n gallu rhedeg dau feicroffon radio, chwarae ffeiliau sain mp3 ac wma yn uniongyrchol o gerdyn SD neu gof bach, neu hyd yn oed y cyfryngau ar eich ffôn neu iPod trwy fewnbwn gwahanol.**
Bydd y system hefyd yn chwyddo sain gitâr neu offerynnau eraill trwy ei ddau jac mewnbynnu 6.5 mm. Mae'n rhedeg am 5 awr ar un gwefriad, fel does dim angen ei blygio i mewn ar gyfer unrhyw ddigwyddiad y bydd eich grŵp yn ei gynllunio.
Mae'r adnodd ar gael ar gyfer eich cyfarfod neu ddigwyddiad, bwciwch trwy gysylltu â David Watson
m: 07837 764 646
e: maddavew1959@yahoo.co.uk
Yn anffodus, chi fydd y gyfrifol am gostau cludiant, ond mae'n ffitio'n hawdd i mewn i gist car a gobeithiwn, gyda chymorth ein ffrindiau ledled Cymru, y gallwn drefnu i'w gludo atoch.
Os gall eich grŵp fforddio cyfraniad tuag at y costau, croesewir hynny, ond peidiwch â phoeni os na ellwch, jest ewch ati â'ch syniadau ymgyrchu a lledaenu'r heddwch!

# Cyfeiriadau

**HEDDWEITHREDU**

**Eich Aelod Seneddol**
Ty'r Cyffredin,
Llundain SW1A 0AA
Ar-lein: www.writetothem.com

**Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn Philip Hammond AS,**
Prif Adeilad,
Whitehall,
Llundain SW1A 2HB
e: DefenceSecretary-Group@mod.uk

**Prif Weinidog David Cameron,**
10 Downing Street,
Llundain SW1A 2AA
e: camerond@parliament.uk

**Eich Aelod/au Cynulliad**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd, CF99 1NA
http://tinyurl.com/dx3puqs

**Da chi, anfonwch fanylion eich digwyddiadau atom (gweler cysylltiadau tud. 2). Gweler y wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar dudalen Facebook, trydar a gwefan CND Cymru.**

# Papurau Cefndir

**Mae cyfres newydd o daflenni gwybodaeth dwyieithog ar gael gan CND Cymru.**

Teitlau hyd yn hyn:
1. Henry Richard AS
2. Bradley Manning
3. Adar Angau Dros Aberporth
4. Trident

Mae rhifau 1-4 ar gael drwy'r post. Anfonwch amlen C5 (maint A5) gyda chyfeiriad a stamp arni at CND Cymru.
Am gost niferoedd mwy, cysylltwch ag CND Cymru:
t: 01239 85 11 88
e: heddwch@cndcymru.org